# NEWYDDION PLASMAWR

Tachwedd 2011

## DYDDIADAU PWYSIG

**Tachwedd 1:** Cyfarfod blynyddol y Llywodraethwyr (1800). Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. (1900).
**Tachwedd 3:** Noson Rieni Bl 11.
**Tachwedd 25:** Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol.
**Rhagfyr 1:** Noson Rhieni Bl 13.
**Rhagfyr 8—16:** Ffugbrofion Bl 11.
**Rhagfyr 15:** Gwasanaeth Nadolig yn y Coleg Cerdd a Drama.
**Rhagfyr 19:** Seremoni Tystysgrifau Bl 12 a 13.
**Rhagfyr 19:** Diwrnod teithiau Bl 7—10.
**Rhagfyr 20:** Diwrnod olaf y tymor.

**Ionawr 3:** HMS.

**Croeso nôl i hanner tymor hynod brysur. Gwyddom fod presenoldeb da yn arwain at gyrhaeddiad academaidd da. Anogwn bawb i anelu at lefel uchel o bresenoldeb drwy'r hanner tymor. Cofiwch bod angen esboniad ysgrifenedig am bob absenoldeb.**

### FFARWEL A DIOLCH

Byddwn yn ffarwelio â Mrs Siriol Burford ar ddiwedd y tymor yn sgil ei phenodiad yn ddirprwy bennaeth ffederasiwn ysgolion uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Michaelston. Mae Mrs Burford wedi bod yn bennaeth cynorthwyol ym Mhlasmawr ers y cychwyn ac wedi rhoi dros 13 mlynedd o wasanaeth gwych i'r ysgol a'i chymuned. Gweledigaeth ac angerdd Mrs Burford sydd wedi arwain at greu hinsawdd gynhwysol yr ysgol gyda phwyslais mawr ar sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae cynlluniau mentora llwyddiannus yr ysgol yn deyrnged i'w ymddiriedaeth hithau yng ngallu disgyblion i arwain projectau cyffrous. Mae llwyddiant anhygoel y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wrth godi degau o filoedd o bunnoedd i'r ysgol wedi digwydd gyda Mrs Burford wrth y llyw. Yn sicr fe fydd yr ysgol ar ei cholled hebddi ond dymunwn pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

### ELUSEN YSGOL

Mae'r 6 llys wedi dewis yr un elusen eleni sef 'Ty Hafan' ac wedi cychwyn ar y gwaith o gasglu arian drwy gynnal hwyl ras lwyddiannus.

### CYNGERDD NADOLIG:

Dewch yn llu i'n cyngerdd Nadolig a gynhelir yn y Coleg Cerdd a Drama ar nos Iau, Rhagfyr y 15eg. Bydd tocynnau ar werth yn y brif swyddfa yn ystod yr wythnosau nesaf.

### HMS:

Nodyn i'ch atgoffa bod dydd Mawrth, Ionawr y 3ydd yn ddiwrnod HMS. Dydd Mercher, Ionawr 4ydd, 2012 fydd diwrnod cyntaf y tymor i'r disgyblion.

### C.R.A.P.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon nos Fawrth (Tachwedd 1af) am 1900 yn yr ysgol. Dewch i gefnogi'r pwyllgor newydd ac i gynorthwyo'r trefnu ar gyfer y cwis a'r Ffair Nadolig.

Nod ariannol y Gymdeithas eleni fydd casglu arian ar gyfer adnoddau dysgu i'r llyfrgell newydd.

Gweler isod ddyddiadau ar gyfer y ddau weithgaredd nesaf yng nghalendr CRAP. Cysylltwch a Sian Elin Griffith neu Seimon Edwards yn yr ysgol am fwy o wybodaeth.

Tachwedd 11: Noson gwis.
Tachwedd 25: Ffair Nadolig yn y neuadd.

### CEIR AR Y SAFLE

Gofynnir yn garedig i rieni beidio gollwng neu casglu eu plant ar safle'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y dydd yn eu ceir ond yn hytrach i wneud hynny ar hyd strydoedd cyfagos neu yn yr arhosfan bws cyhoeddus wrth flaen yr ysgol.

### GWISG YSGOL:

Mae safon gwisg y mwyafrif helaeth o'n disgyblion yn wych ond mae yna rai sydd yn parhau i herio rheolau'r ysgol ar wisg. Rydym yn pryderu bod nifer o ferched yn parhau i wisgo sgertiau sydd yn rhy fer ac s'yn anaddas i'r Ysgol. Wrth i'r gaeaf agosau caniateir i ddisgyblion wisgo menig, sgarffiau a hetiau y tu allan i adeiladau'r ysgol. Ni chaniateir 'boots' yn yr adeilad a gofynnir i ddisgyblion newid i'w esgidiau ysgol arferol wrth gamu i mewn i'r adeilad.

### RHEOLAU'R YSGOL:

Nodyn i atgoffa rhieni am *ambell un* o reolau arall yr Ysgol er mwyn eu hatgyfnerthu adref:

Cymraeg yw iaith yr Ysgol.
Dim gemwaith.
Dim gwm cnoi.

### NEWID CYFEIRIAD / RHIFAU FFÔN

Apel i bawb sydd yn newid cyfeiriad neu rhif ffon yn enwedig ffonau symudol i drosglwyddo'r wybodaeth i'r swyddfa. Mae'n bwysig bod y wybodaeth sydd gennym am bob disgybl yn gywir.

### LLUNIAU DISGYBLION

Os nad ydych yn fodlon i luniau/ffotograffiau o'ch plentyn ymddangos ar wefan neu unrhyw ddogfennaeth ysgol, yna mae'n bwysig eich bod yn hysbysu Arweinydd Cynnydd eich plentyn:
Bl 7: Aled Williams.
Bl 8 a 9: Paul Harris.
Bl 10 a 11: Helen Stiff.
Bl 12 a 13: Aled James.

### SEICLO I'R YSGOL

Rydym yn falch iawn o'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n dewis seiclo i'r ysgol. Anogwn bawb sy'n seiclo i wisgo helmed diogelwch ac i sicrhau bod golau ar eu beiciau yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae Newyddion Plasmawr yn cael ei gyhoeddi ar gychwyn pob hanner tymor ac ar gael ar wefan yr ysgol.